

Don Llewelyn o Bentyrch ar drywydd SIOP WILLIAM EVANS

YN 1975 darganfyddais drysor a fu'n guddiedig ers diwedd y ganrif ddiwethaf. Nid aur nac arian mohono, ond eto, roedd yn amhrisiadwy. Pwy fuasai'n meddwl y gallai adfeilion hen siop y pentre ddal y fath ddirgelwch. Yn ystod y ganrif hon, yr oedd y stôr wedi bod yn gartref i sawl masnachwr parchus a gweithgar, ond neb i gymharu â William Evans y perchennog o 1862 hyd 1900. Yr ydym yn dra diolchgar i'r dyn hwn oherwydd dim ond trwy ei weledigaeth a'i ddyfeisgarwch y mae gennym heddiw gasgliad gwyech o ddogfennau sy'n dangos bywyd ein pentref bach yn ei gyfanrwydd yn ystod oes Fictoria. Hap a damwain oedd y darganfyddiad. Tynnodd cymydog fy sylw at y ffaith fod darnau bach o bapur yn chwifio yn y gwynt yn gyfagos i furddun yr hen siop. Yr oedd cipolwg ar un ohonynt yn ddigon i gynnau diddordeb; diwedd llythyr personol ydoedd: *'... Hyn mewn hyfrydych calon oddi wrth eich ufudd Gomer Thomas'*.

Yr oedd y brad-ddrws i'r llofft uwch ben y stablau wedi pydru ac yr oedd y to yn barod i esgor cyfrinachau yr hen William allan i'r byd tu hwnt. Cefais ganiatâd i'w holrhain a hefyd i gadw unrhyw beth o bwysigrwydd hanesyddol i'm hastudiaeth fy hun. Yn ddigon hawdd, agorwyd y drws am y tro cyntaf ers troad y ganrif ac yno o fy mlaen roedd y trysor. Yr oedd William Evans wedi cadw pob darn o bapur perthnasol i'w fusnes a'i fywyd gyda phob blwyddyn wedi eu rhestru ar fonyn gwahanol. Eisteddai'r bwndeli'n daclus

mewn rhes ar un ceibren. Gwelais dystiolaeth o ymweliadau cenedlaethau o lygod bach ond ychydig iawn o ddfirod oedd i'w weld, a hynny yn gyfyngedig i'r ymylon. Diolch i'r llygod am eu trugaredd!

Eisteddais am dair awr y prynhawn hwnnw ymhlith y ceibrennau yn gaeth i'r papurau a'u cynnwys. Wedyn, trowyd fy ngarej yn astudfa am dri mis tra bùm yn dethol y rhai gorau ac yn eu diheintio. Dros yr wythnosau, datblygodd (allan o'r chwech o sacheidiau gorlawn) ddarlun o fywyd pentrefol hir ddiiflanedig.

Pentyrch yw'r lle; pentref sydd yn gorwedd ar lechweddau Mynydd y Garth yn nwyrain Morgannwg ond yn fwy cywir, y rhan o'r hen blwyf a elwir yn Benygarn. Dim ond saith milltir o ganol y briffddinas, ond yn fyd gwahanol. Fel y dywedodd y diweddar Athro Griffith John Williams, 'Bu Pentyrch erioed yn enwog am ei Gymreigrwydd, am ei sêl dros bopeth Cymreig... pan oedd yr ardaloedd cylchynol yn cael eu boddi gan fôr o Seisnigrwydd, parhaodd yr iaith yma yn hoew ac yn dirf'. Ac yn anhygoel, wrth ystyried agosrwydd daearyddol y pentref i Gaerdydd, yw'r ffaith fod cofnodion Cyngor Plwyf Pentyrch yn ddwyieithog hyd at y saithdegau cynnar (sef amser y newidiadau mawr yng nghyfundrefn llywodraeth leol). Yn y rhan hon o Gymru roedd yn wyrth.

Fel y disgwylir, trwy gyfrwng y Saesneg 'roedd y mwyafrif o'r gweithredoedd masnachol a gadwyd yn y casglwr er mai Cymraeg oedd iaith gyntaf 95%

1885 Dec 31 st		
Mr William Evans		
To William Matthews Blacksmith		
		<i>£ s d</i>
March 13	4 new shoes	0 2 6
	2 new rings	0 0 2
	2 new staples	0 0 2
30	new ring & pin	0 0 3
April 3	2 new shoes	0 1 3
	mending fender	0 0 8
May 3	new plate for scraper	0 0 6
	mending iron for truch	0 0 6
	new screws	0 1 0
19	4 new shoes	0 2 6
	lengthening rods for bed stand	0 0 0
	new ess	0 0 1
June 4	3 shoes removed	0 1 0
July 2	4 new shoes	0 2 6
	putting pins on handle	0 0 4
	carry over	6 13 11

o drigolion y plwyf yn y cyfnod hwnnw. Er gwaethaf hyn, Cymraeg oedd y llawlyfr a ddysgodd William Evans sut i wneud ei gyfrifon. Yr oedd yn ogystal yn gwerthu ugeiniau o bapurau newydd Cymraeg i'r pentrefwyr ac ambell almanac a nofel yn yr hen iaith. Hyd yn oed yn y cyfraniadau Saesneg cewch gadarnhad nad yr iaith fain a gâi flaenoriaeth ym mywyd y gymuned.

Deuthum yn gyfarwydd iawn â'r teulu Evans wrth i mi ddilyn eu gweithredoedd a nodi eu teimladau ynglŷn ag amryw agweddau bywyd. Deuthum i adnabod William ei hun fel dyn uchelgeisiol a gwelais ei gyfoeth yn tyfu dros y deugain mlynedd. Fel masnachwr, mwynhaodd safle go bwysig mewn cymdeithas ac yr oedd yn ddi-ddorol gweld y berthynas rhyngddo ef a'r ysgolfeistr, y postfeistr a'r ficer. Siop weddol fach oedd hi ar y dechrau ond erbyn y saithdegau, yr oedd yn archfarchnad ei dydd a hyn yn syndod gan gofio mai pentref cymharol ynysig oedd Pentyrch a dim ond llwybrau cul a chreigiog i'w gyrraedd. Yr oedd ganddo gyflenwyr o feysydd pell: daeth ymenyn o Iwerddon a thybaco yn uniongyrchol o

America. Mae un llythyr (1862) yn ymddiheuro am godi prisiau oherwydd y rhyfel rhwng y Taleithiau. Yr oedd yn derbyn cig moch o safon yn gyson oddi wrth ffermwr yn Nhrefaron ac yr oedd yn brynwr parod pan oedd y moch lleol yn dew. Fel cyflogwr roedd William Evans yn gosod tair amod: rhaid i bob gweithiwr fod (a) yn gallu siarad Cymraeg; (b) yn deilwng o'i ymddiried; (c) yn Fethodist Calфинаidd. £26 y flwyddyn oedd cyflog cyfartal i'w weision.

Dan do'r siop roedd amrywiaeth anferth o bethau cyffredin ac egsotig, o fotymau i bowdr dryll, o feddyginiaethau i



Siop William Evans

fwyd i dda byw; olew, bara a bisgedi, blawd, siwgr, triogl a mël, chwisi, brandi a gwin, snisin (*Finest Black Rappee*), ac ugeiniau o sigârs gwahanol. Cannoedd o archebion nwyddau sy'n dangos gofynion sylfaenol teulu cyfoes; bron pob un yn gofyn am ganhwyllau, paraffin a lampblack heb anghofio am gaws, halen a bara. Gwerthwr gwisgoedd oedd William Evans hefyd ac yr oedd yn cadw dillad at bob achlysur, o briodasau i angladdau, o'r cwrdd i'r helfa. Mae sawl archeb am frethyn lle mae'r cwsmer wedi pinio sampl i'r llythyr. Y cyfryw oedd enw da y siop am safonau uchel, bu cerbydau William Evans yn anfon nwyddau i Fro Morgannwg, Caerdydd, Ponypridd a'r cymoedd, bron pob awr o'r dydd.

Yr oedd melinwyr a gwneuthurwyr celfi yr ardal mewn cysylltiad rheolaidd â'r busnes. Mae'r ugeiniau o anfonebau gan grefftwyr y plwyf, sef Mathews y gof, Thomas y plastrwr, Williams y gwydrwr, a Sianco'r crydd yn creu darlun o lawnder a phrysurdeb. Yn achos Evans ei hun, gwelwn gyfoeth uwch ei alwedigaeth. Eto, yn gwau drwy'r cyfan gallwn weld arwyddion o dlodi a llymder. Y

Pentyrch Vicarage
March 10th 1883.

Dear Mr. Evans,

Ann Morgan tells me that she & her family are in want of food, I gave her three shillings last night, but I suppose that was not sufficient to keep them (five in number) till Monday, so I think she had better have three or four shillings worth of food to night, which if you will kindly supply her with & charge the same to me I shall feel obliged. Yours as ever, Theophilus Rees

nodïadau di-ri oddi wrth y ficer Parch. Theophilus Rees sy'n dangos yn fanwl gyfyngder ac anobaith rhai o drigolion anghenus y pentref: weithiau yn gofyn am werth swllt o fara i rwystro rhyw deulu bach rhag newynu, neu atolwg am esgidiau ail-law i blant troednoeth. Mae'r disgrifiadau o afiechydon y

cyfnod yn cynnwys y dwymyn lyferth (teiffoid) a sawl cyfeiriad at farwolaeth yn y crud.


Un o lywodraethwyr Ysgol Bwrdd Pentyrch oedd William Evans ond cafodd pob un o'i wyth o blant addysg breifat ym Mryste. Hiraethu am bentref eu genedigaeth oeddent yn eu llythron. Yn rhyfedd, nid oes un

o ddisgynyddion William Evans yn byw yn yr ardal heddiw. Yr oedd ei fab, John William, dyn dysgedig a oedd yn siarad pump o ieithoedd gwahanol, yn ysgolfeistr yn y Creigiau hyd at ei farwolaeth yn 1950. Claddwyd ef gyda gweddill y teulu ym mynwent Eglwys St. Catwg, Pentyrch; er mai Methodistiaid eiddgar oeddynt i gyd, yr oedd tyniad eu gwreiddiau dwfn yn yr hen blwyf yn rhy gryf.

Yn y casgliad mae ffurflenni a thrwyddedau sydd yn dangos cymhlethdod rhedeg busnes hyd yn oed yn y dyddiau hynny, yn eu plith, tystysgrifau treth incwm ochr yn ochr â dogfennau i ganiatáu gwerthu gwirodydd ac i gyflogi gweision. Mae adlewyrchiad o bron pob golwg ar y natur ddynol ar gael ar y bonau. Ynghyd ag enghreifftiau o dynerwch calon, mae ambell weithred gas; ond ar y cyfan, rhinweddau ydynt a fyddai'n fendithiol i ni i gyd o'u harddel heddiw.

O'r cyfan, fy hoff eitem yw llythyr oddi wrth ddyn o Ferthyr at William Evans yn gofyn am rywbeth a archebwyd rhyw fis yn gynharach. Mae'n cyflwyno i'r siopwr y bygythiad: os na cheid yr ambarél ar unwaith ni allai wneud dim llai na rhoi hanes y mater i gyd-ddiaconiaid William Evans yng Nghapel y Methodistiaid Calfnaid Horeb, Pentyrch!

No. 333—2.


INLAND REVENUE.

LICENCE.—FOR ONE MALE SERVANT £0 15s. Od.
32 & 33 Vict., cap. 14.

No. 2 Taffwell Collection.
Cardiff Div. or Ride.

William Evans
of Pony gwyn in the Parish
of Pentyrch in the County of Glamorgan

is hereby authorized to employ ONE MALE SERVANT from the day of the date hereof until the 31st day of December next following; he having paid the sum of FIFTEEN SHILLINGS for this Licence.

Dated at Taffwell this 10th
day of January 1877.

Granted by Morgan Thomas

NOTICE.

If a MALE SERVANT be kept after the 31st December in any year, a fresh Declaration must be filled up and delivered, and a new Licence obtained before the expiration of the month of January following.

